

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU  
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES



# GWANWYN SPRING 2017



perfformiadau byw  
cyflwyniadau / teithiau  
live performances  
presentations / tours

[www.llgc.org.uk](http://www.llgc.org.uk)

# CROESO WELCOME

<b>CIPOLWG / AT A GLANCE</b>	<b>3</b>
<b>ARDDANGOSFEYDD / EXHIBITIONS</b>	<b>4–8</b>
<b>CAFFI PEN DINAS</b>	<b>9</b>
<b>SIOP / SHOP</b>	<b>10</b>
<b>DARLITHOEDD A CHYFLWYNIADAU / TALKS AND PRESENTATIONS</b>	<b>11–24</b>
<b>CERDDORIAETH / MUSIC</b>	<b>25</b>
<b>DIGWYDDIADAU I BLANT / CHILDREN'S ACTIVITIES</b>	<b>26</b>
<b>GWYBODAETH I YMWELWYR / VISITOR INFORMATION</b>	<b>27–30</b>
<b>CADWCH MEWN CYSYLLTIAD / KEEP IN TOUCH</b>	<b>31</b>

GOSTYNGIAD I GRWPIAU  
O 5 NEU FWY  
—  
DISCOUNTS GIVEN TO  
PARTIES OF 5 OR MORE

**LGC  
NLW** LLYFRIGELL GENEDLAETHOL CYMRU  
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

**A** Archif Genedlaethol  
Sgrin a Sain Cymru  
The National Screen and  
Sound Archive of Wales

**W** Nodi'n gan  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government



Rhif Elusen Gofrestriedig /  
Registered Charity Number  
525775

## CIPOLWG AT A GLANCE

TOCYNNAU / TICKETS  
01970 632 548  
digwyddiadau.llyfrgell.cymru  
events.library.wales

### IONAWR / JANUARY

04	A regiment of unknown soldiers	1.15pm
24	Crossing the boundary	7.30pm
27	Noson yng nghwmni Siân James	7.30pm

### CHWEFROR / FEBRUARY

01	Yr Ysgwrn: Cadw'r Drws yn Agored	1.15pm
04	"Ymarweddiad rhagorol ym mhopath"	2.00pm
22	The Inventory of Historical Battlefields in Wales	1.15pm
22-25	Arwyr ydym ni / We are Legends	Gweler tudalennau / See pages 14-15

### MAWRTH / MARCH

01	Dathlu Dydd Gŵyl Dewi / Celebrating St. David's Day	12.30pm
01	Chwedlau'r llan: seintiau Cymru o Benfro i'r Pflint	1.15pm
04	Chwilota am Chwedloniaeth Ceredigion / Discover the Legends of Ceredigion	10.00am–4.00pm
08	Breaking the rules: Betsi Cadwaladr and her 'autobiography'	1.15pm
15	'Observations – collections – recollections': a lifetime in photography	1.15pm
22	David Lloyd – Llestr Bregus	7.30pm
29	Sgwrs Oriol / Gallery Talk: Chwedlau'r Seintiau / Stories of the Saints	1.15pm + 2.30pm

### EBRILL / APRIL

05	Edward Thomas and Wales	1.15pm
19	The Shadow of Nanteos	1.15pm
20	Gweithdy Ffotograffiaeth / Photography Workshop	1.00–4.00pm
22	Robert Vaughan a'i lyfrgell	2.00pm

### MAI / MAY

03	Wales–China 250 years of history	1.15pm
12	Carto-Cymru 2017: Mesur y Meysydd / Measuring the Meadows	9.45am–4.30pm
13	Ffair Hanes Teulu a Hanes Lleol / Family and Local History Fair	10.00am–4.00pm

- C** Digwyddiad drwy gyfrwng y Gymraeg / Event held in Welsh
- E** Digwyddiad drwy gyfrwng y Saesneg / Event held in English
- B** Digwyddiad dwyieithog / A bilingual event
- T** Darperir cyfieithu ar y pryd / Simultaneous translation provided

Tudalen flaen / front page: Ruth Jones (Nessa) by Malcolm Grayson

# Arddangosfeydd Exhibitions

**MYNEDIAD  
AM DDIM  
FREE ENTRY**

Dewch i fwynhau casgliadau hynod y Llyfrgell Genedlaethol sy'n cael eu harddangos yn ein horielau. Os dyma eich ymweliad cyntaf neu os ydych wedi ymweld o'r blaen, mae'r croeso wastad yn gynnes. Mae ein holl arddangosfeydd am ddim ac rydym yn croesawu teuluoedd. I ychwanegu at eich ymweliad beth am ymweld â'n siop a Caffi Pen Dinas a mwynhau golygfeydd arbennig Bae Ceredigion?

Come and explore the remarkable collections of the National Library on display in our galleries. Whether it's your first visit, or you've been here before, you're assured of a warm welcome. All of our exhibitions are free and families are welcome. Complete your visit with a unique shopping experience in our gift shop and enjoy views over Cardigan Bay in the relaxed atmosphere of Caffi Pen Dinas.

Mae 2017 yn 'Flwyddyn Chwedlau' – dewch i ddarganfod!

2017 is the 'Year of Legends' – come to discover!

#GwladGwlad

#FindyourEpic



Yr Arddangosfeydd a'r Pwbl Coch

18.02.17 – 02.09.17


**Diffodd yr Awen:  
Hedd Wyn ac  
Edward Thomas**

Gan mlynedd yn ôl bu farw dau fardd ar faes y gad yn ystod y Rhyfel Mawr; Hedd Wyn ac Edward Thomas. Trwy ein casgliadau amryfal byddwn yn dathlu bywyd a gwaith y beirdd rhyfel hyn.

**Fallen Poets:  
Hedd Wyn and  
Edward Thomas**

One hundred years ago two poets were killed in battle during the Great War: Hedd Wyn and Edward Thomas. Through our diverse collections we will celebrate the life and work of these war poets.

#cymruncofio  
#walesremembers



Llanstephan MS 28

18.02.17 – 10.06.17


**Chwedlau'r Seintiau**

O Sain Ffagan i Llandudno, o Dyddewi i Bennant Melangell, mae enwau'r seintiau ynghlwm wrth gyfansoddiad y wlad. Bu chwedlau'r seintiau yn doreithiog yn y Gymru ganoloesol ar un adeg, er bod nifer wedi mynd yn angof erbyn heddiw. Amlyga'r arddangosfa hon oroesiad y traddodiadau canoloesol am y gwyr a'r gwragedd sanctaidd sy'n cynrychioli rhan bwysig o etifeddiaeth ddiwylliannol y wlad.

**Stories of the Saints**

From St Fagans to Llandudno, St Davids to Pennant Melangell, the names of saints are bound up with the very fabric of the country. Stories of the saints were once plentiful in medieval Wales, although many are forgotten today. This exhibition demonstrates the survival of medieval traditions about the holy men and women who represent an important part of the country's cultural inheritance.

#seintiau  
#saints



Y llyfr llaiaf! The smallest book: 'Old King Cole'

02.03.17 – 03.02.18

### O Glawr i Glawr

Byddwn yn olrhain hanes y llyfr ar ei daith o'r Aiffit i'r e-lyfr, gan edrych ar fathau o lyfrau, y broses o greu llyfrau, a llyfrau fel darnau o gelf ynddynt eu hunain.

### Cover to Cover

We will trace the history of the book on its journey from Egypt to e-book, looking at types of books, the process of creating a book, and books as works of art in themselves.



Ruth Jones (Nesau), Malachyn Grayson

18.03.17 tan / until Mawrth / March 2018

### Arwyr!

Cyfle i ddod 'wyneb yn wyneb' gydag arwyr Cymru o'r Casgliad Portreadau Cenedlaethol.

### Legends!

An opportunity to come 'face to face' with Welsh legends from the National Portrait Collection.

#GwladGwlad  
#FindyourEpic



Sylvan, Cardiff, 1969, Pete Davis

04.03.17 – 17.06.17


### Pete Davis: 'Observations – Collections – Recollections': a lifetime in photography

Arddangosfa ôl-syllol bwysig o ffotograffau dros gyfnod o 60 mlynedd, ynghyd â gwaith newydd sy'n amlgu diddordeb oes y ffotograffydd mewn agweddau penodol o'r byd o'n cwmpas. Llwyddia i ddal ar gamera yn berffaith yr eiliadau a'r amgylchoedd cyffredin hynny yn ôl pob golwg a fyddai fel arall yn osgoi sylw heb gael eu gweld gan lygad sympathetig.

A major retrospective exhibition of photographs spanning 60 years, along with new work highlighting the photographer's lifelong fascination with particular aspects of the world around us. He captures perfectly those seemingly mundane moments and surroundings that might pass unnoticed unless observed by a sympathetic eye.







Llyfr Du Caerfyrddin / The Black Book of Carmarthen, Peniarth MS 1

**Darganfod calon  
diwylliant Cymru**

Cyfle i weld eiconau cenedlaethol yn Peniarth ble fyddwn yn cynnig rhaglen dreiglol i arddangos trysorau. Bydd yr eitemau'n cynnwys Llyfr Du Caerfyrddin: y llawysgrif hynaf yn yr iaith Gymraeg.

**Discover the heart  
of Welsh culture**

See some of our national icons in Peniarth where we present a rolling programme to exhibit Library treasures. These items will include the Black Book of Carmarthen: the earliest surviving manuscript written in Welsh.



**A wyddoch chi fod Llyfr Du Caerfyrddin yn rhan o Gasgliad Peniarth? / Did you know that the Black Book of Carmarthen is part of the Peniarth Collection?**



Kerli Morris, Afresodades.com

**CAFFI PEN DINAS**

Mae Caffi Pen Dinas yn ymfalchio mewn darparu bwyd o ansawdd uchel sy'n cael ei baratoi yma gan ddefnyddio cynnyrch Cymreig lleol.

Dewch i fwynhau ein brechdanau amrywiol, panini, tatws trwy'r crwyn, cawl cartref a phrydau'r dydd. Mae diodydd poeth ac oer ar gael drwy'r dydd a beth am flasu eu teisennau cartref godidog?

Lleolir Caffi Pen Dinas mewn man cyfleus yn ymyl y brif fynedfa, a darperir mynediad rhwydd a chyfleusterau i deuluoedd. Rydym yn agored o 9.00am hyd 4.30pm ddydd Llun hyd ddydd Gwener, ac o 10.00am hyd 4.00pm ddydd Sadwrn.

Caffi Pen Dinas prides itself on providing quality food freshly prepared on site, using local Welsh produce.

Come along and enjoy the range of sandwiches, panini, jacket potatoes, homemade soup and daily specials. Hot and cold beverages are served all day and why not indulge by tasting their delicious homemade cakes?

Caffi Pen Dinas is conveniently situated near the main entrance, and is family friendly with easy access. Open from 9.00am until 4.30pm Monday to Friday, and from 10.00am until 4.00pm on Saturdays.



Keith Morris / [thesebooks.com](http://www.thesebooks.com)

## SIOP / SHOP

Mae siop y Llyfrgell yn cynnig eitemau unigryw, gwaith wedi ei wneud â llaw a chreffftau a rhoddion anarferol a ysbrydolir gan gasgliadau'r Llyfrgell.

Rydym yn gwerthu nwyddau hardd i'r cartref, gemwaith o ansawdd uchel a wneir yng Nghymru, teganau, llyfrau a CDs.

Rydym ar agor o 9.00am hyd 5.00pm, ddydd Llun hyd ddydd Sadwrn.

Siop Arlein:  
[siop.llgc.org.uk](http://siop.llgc.org.uk)

The Library shop offers unique well-crafted items, handmade and unusual crafts and gifts inspired by the Library's collections.

We sell beautiful homeware, quality jewellery hand made in Wales, toys, books and CDs.

We are open from 9.00am until 5.00pm, Monday to Saturday.

Online Shop:  
[siop.llgc.org.uk](http://siop.llgc.org.uk)



Casgliad D.C. Harries Collection

*Dydd Mercher 4 Ionawr*  
1.15pm

### A regiment of unknown soldiers – William Troughton

Roedd gan y ffotograffydd D. C. Harries siopau stryd fawr yn Llandeilo a Rhydaman. Ymhlith y miloedd o bobl a gafodd dynnu eu lluniau ganddo dros hanner canrif, roedd cannoedd o wŷr ifainc a oedd ar fin ymadael am faes y gad. Wyddon ni ddim pwysu yw'r rhan fwyaf ohonynt, ond rydyn ni'n gwybod llawer iawn amdanynt. Sut felly? Dewch i glywed mwy.

*Mynediad am ddim drwy docyn*

*Wednesday 4 January*  
1.15pm

### A regiment of unknown soldiers – William Troughton

D. C. Harries was a high street photographer with premises in Llandeilo and Ammanford. Amongst the thousands photographed by him over the course of half a century were hundreds of young men who sat for portraits before leaving for 'The Front'. We don't know who most of them are but we know quite a lot about them. How? Come along and find out.

*Free admission by ticket*

**E**



**A wyddoch chi fod gan y Llyfrgell dros 2,500 o ddelweddau gan D.C. Harries?**  
Did you know that the Library has over 2,500 images by D.C. Harries?





Mynydd Bach - (c) Peter Stevenson

*Dydd Mawrth 24 Ionawr*  
7.30pm

**Crossing the boundary**

Yn ystod Blwyddyn Chwedlau eleni, bydd Peter Stevenson (storiwr) ac Ailsa Mair Hughes (cantores/soddgrythores) yn mynd â ni ar daith hudolus ar draws ffiniau a thirluniau Cymru, drwy gyfrwng chwedlau gwerin Morwyn Llyn Eiddwen, Rhyfel y Sais Bach a Siani Pob Man, a chawn glywed am y tro hwnnw y daeth Ifan Gruffydd ar draws y Tylwyth Teg.

*Mynediad drwy docym £7.00 Bar ar gael*

#GwladGwlad  
#FindyourEpic

*Tuesday 24 January*  
7.30pm

**Crossing the boundary**

During this Year of Legends, Peter Stevenson (storyteller) and Ailsa Mair Hughes (singer / cellist) take us on a mystical journey across the boundaries in the Welsh landscape, told through the folk tales of the Lady of Llyn Eiddwen, Rhyfel y Sais Bach, Siani Pob Man, and Ifan Gruffydd's encounter with the Tylwyth Teg.

*Admission by ticket £7.00 Bar available*

**E**



Yr Ysgwrn

*Dydd Mercher 1 Chwefror*  
1.15pm

**Yr Ysgwrn: cadw'r drws yn agored – Naomi Jones**

Cyflwyniad i hanes Yr Ysgwrn, un o gartrefi enwocaf Cymru ac ymdrech Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i gadw'r drws yn agored i genedlaethau'r dyfodol.

*Mynediad am ddim drwy docym*

#GwladGwlad  
#FindyourEpic

*Wednesday 1 February*  
1.15pm

**Yr Ysgwrn: cadw'r drws yn agored – Naomi Jones**

An introduction to the history of Yr Ysgwrn, one of Wales's most famous homes, and the Snowdonia National Park Authority's efforts to keep the doors open for future generations.

*Free admission by ticket*

**C T**



**A wyddoch chi fod cerdd enwocaf Hedd Wyn, Yr Arwr yn y Llyfrgell? / Did you know that Hedd Wyn's famous poem Yr Arwr is held at the Library?**



Notre Dame, Paris - (c) Dr Rhun Emlyn

*Dydd Sadwrn 4 Chwefror*  
2.00pm

**Digwyddiad Cyfeillion y Llyfrgell: "Ymarweddiad rhagorol ym mhopeth": – Dr Rhun Emlyn**

Hanes y Cymry a deithiodd i astudio ym mhrifysgolion y cyfandir yn y bymthegfed ganrif. Pwy oeddent, a sut effeithiodd eu profiad ar Gymru'r Oesoedd Canol.

*Mynediad drwy docym £4.00, am ddim i Gyfeillion y Llyfrgell*

*Saturday 4 February*  
2.00pm

**NLW Friends Event: "Ymarweddiad rhagorol ym mhopeth" – Dr Rhun Emlyn**

The story of the Welsh travellers who studied in universities on the continent during the fifteenth century. Who were they, and how did their experiences affect Wales in the Middle Ages.

*Admission by ticket £4.00, free to NLW Friends*

**C T**

*Gweithgareddau*  
*Hanner Tymor Chwefror /*  
*February Half Term Activities*

Dewch draw i'n gweithdai yn ystod hanner tymor Chwefror er mwyn dysgu mwy am arwyr Cymru. Ymunwch â ni ym myd yr hanesion hud a lledrith a'r arwyr hynafol. Beth am greu eich cawr neu arwr eich hun neu wisgo i fyny fel eich archarwr? Nid ydym wedi anghofio am ein harwyr modern chwaith, yn y byd roc, pop a chwaraeon – oes gyda chi arwr?

Bydd myfyrwyr o Brifysgol Aberystwyth yn cynnal y gweithdai ac mae'r gweithgareddau yn addas ar gyfer plant rhwng 5 a 14 oed gyda chroeso i'r teulu cyfan

*Bydd angen oedolyn yn bresennol i fod yn gyfrifol am ei plentyn.*

## Arwyr ydym ni We are Legends

Come along to our workshops during February half-term to learn more about the legends of Wales. Join in tales of ancient heroes, mystery and magic. Craft your own mythical beast or dress up as your favourite superhero. And we haven't forgotten those modern legends from rock, pop and sport – who is your hero?

Students from Aberystwyth University will be running workshops on the dates suitable for children aged between 5 and 14 but the whole family is welcome!

*Children must be accompanied by an adult.*



*Dydd Iau / Thursday 23*  
2.00–4.00pm

### **Creu eich Hunlun / Create your Selfie**

*Addas i blant / suitable for children 10–15*

*Dydd Sadwrn / Saturday 25*  
11.00am–1.00pm

### **Chwedlau Astec / Aztec Legends**

Dewch ar antur Astec gan greu eich celf eich hunain / Come on an Aztec adventure to create your own art

*Addas i blant / suitable for children 5–10*

*Dydd Sadwrn / Saturday 25*  
2.00–4.00pm

### **Paentio Arwr / Paint a Legend**

Creuwch eich arwyr eich hunain mewn paent  
Create your own legends in paint

*Addas i blant / suitable for children 5–10*

*Mynediad am ddim drwy docyn*  
*Free admission by ticket*

**B**

*Dydd Mercher / Wednesday 22*  
2.00–4.00pm

### **Mamgu a Thadcu – nodweddion teuluol** **Grandparents Session – family traits**

*Addas i'r teulu i gyd / Suitable for the whole family*

### **Blwch ffoto / Photobox**

Gwnewch eich hunan yn arwr gyda chymorth ein blwch ffoto / Make yourself your own legend using props from our photobooth

*Addas i blant / suitable for children 8–12*

*Dydd Iau / Thursday 23*  
11.00am–1.00pm

### **Gweithdy Clai – creu penddelw** **Clay workshop – create a head sculpture**

*Addas i blant / suitable for children 9–13*



Gwyddoch chi fod Gwasanaeth Addysg y Llyfrgell yn cynnig pecynnau arbennig i ysgolion? / Did you know that the Library's Education Service offer special packages for schools?





Cofeb Carregastad Memorial, Abergwaun / Fishguard

*Dydd Mercher 22 Chwefror*  
1.15pm

### The Inventory of Historic Battlefields in Wales – Scott Lloyd

Mae'r Comisiwn Brenhinol yn lansio gwefan newydd; cronfa ymchwil sy'n cynnwys gwybodaeth am safleoedd mwy nag 800 o frwydrau. Mae'r cyflwyniad yn rhoi ychydig o gefndir i'r prosiect, sôn am Restr Meysydd y Gad, a'r trafferthion a gafwyd wrth lunio mapiau o safleoedd annelwig. Codir cwestiynau fel: sawl gwaith daeth y Llychlynwyr i ysbeilio Cymru? Ym mha rannau o Gymru y bu'r mwyaf o frwydro, a pha dystiolaeth archeolegol sydd ar ôl o feysydd y gad yng Nghymru?

*Mynediad am ddim drwy docyn*


#GwladGwlad  
#FindyourEpic

*Wednesday 22 February*  
1.15pm

### The Inventory of Historical Battlefields in Wales – Scott Lloyd

The Royal Commission is launching a new website, a research resource containing information on the locations of over 800 battles. The presentation will introduce the project background, the Battlefields Inventory, and the problems of mapping uncertain locations. Questions raised will include: how many times did Viking raiders come to Wales? Which regions of Wales have seen the most conflict, and what archaeological evidence survives for Welsh battlefields?

*Free admission by ticket*



*Dydd Mercher 1 Mawrth*  
12.30pm

### Dathliadau Gŵyl Dewi

Ymunwch â ni wrth inni ddathlu diwrnod ein nawddsant. Dewch i ymweld â ni i fwynhau bwyd traddodiadol Cymreig yng Nghaffi Pen Dinas wrth i chi gael eich diddanu gan gerddoriaeth fyw ar y delyn gan Delynores Bro Ystwyth.

*Dydd Mercher 1 Mawrth*  
1.15pm

### Chwedlau'r llan: seintiau Cymru o Benfro i'r Fflint – Dr David Parsons

Ar Ddydd Gŵyl Dewi cofiwn y rhan sylfaenol a chwaraeodd moliant y seintiau yng nghymdeithas Cymru cyn y Diwygiad Protestannaidd. Bydd y sgwrs hon yn trafod testunau Cymraeg yr Oesoedd Canol ynglŷn â'r seintiau, ac yn archwilio'r cysylltiad cryf gyda llefydd ac ardaloedd penodol.

*Mymediad am ddim drwy docyn*

#seintiau  
#saints

*Wednesday 1 March*  
12.30pm

### St David's Day Celebrations

Join us as we celebrate the patron saint of Wales. Come and enjoy traditional Welsh food in Caffi Pen Dinas to the live accompaniment of the harp by Telynores Bro Ystwyth.

*Wednesday 1 March*  
1.15pm

### Chwedlau'r llan: seintiau Cymru o Benfro i'r Fflint – Dr David Parsons

On St David's Day we are reminded that the veneration of saints played a central part in pre-Reformation Welsh society. This talk discusses medieval Welsh-language texts about saints, and examines their strong relationship with particular places and regions.

*Free admission by ticket*



**A wyddoch chi fod casgliad yr Eglwys yng Nghymru yn cael ei gadw'n y Llyfrgell? / Did you know that the Church in Wales collection is held at the Library?**

Canreŷ Ceredigion (c) James Baker



*Dydd Sadwrn 4 Mawrth*  
10.00am–4.00pm

**Chwilota am Chwedloniaeth Ceredigion**

Mae'r Llyfrgell yn llawn o straeon, ac heddiw byddwn yn dathlu rhai o'r chwedlau leol sy'n gysylltiedig â'n casgliadau drwy roi mynediad i ymwelwyr i app newydd sy'n llawn hanesion, traddodiadau a phytiau pryfoclyd o'n chwedlau.

*Mynediad am ddim*

*Saturday 4 March*  
10.00am–4.00pm

**Discover the Legends of Ceredigion**

The Library is full of stories, and today we'll be showcasing local legends connected to some of our collections by giving visitors access to a new app packed with tales, traditions and tantalising snippets of myth and legends.

*Free admission*



*Dydd Mercher 8 Mawrth*  
1.15pm

**Breaking the rules: Betsy Cadwaladyr and her 'autobiography' – Gwyneth Tyson Roberts**

Wrth inni ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, cawn gyfle hefyd i ddathlu bywyd a gwaith Betsy Cadwaladyr, y nyrs o Gymru a fu wrth law yn Rhyfel y Crimea.

*Mynediad am ddim drwy docyn*

*Wednesday 8 March*  
1.15pm

**Breaking the rules: Betsy Cadwaladyr and her 'autobiography' – Gwyneth Tyson Roberts**

As we celebrate International Women's Day, we also celebrate the life and work of Betsy Cadwaladyr, the Welsh nurse who worked in the Crimean War.

*Free admission by ticket*

**E**

#GwladGwlad  
#FindyourEpic



Canreŷ Basi, Cefnallan (c) Dr Pete Davis

*Dydd Mercher 15 Mawrth*  
1.15pm

**Observations, collections, recollections, a lifetime in photography – Dr Pete Davis**

I gyd-fynd a'i arddangosfa yn y Llyfrgell, bydd Pete Davis yn dod i drafod ei waith a'r hyn sy'n dylanwadu arno – a'r modd y mae ei syniadau wedi datblygu o waith a greodd yng Nghymru a thu hwnt.

*Mynediad am ddim drwy docyn*

*Wednesday 15 March*  
1.15pm

**Observations, collections, recollections, a lifetime in photography – Dr Pete Davis**

To coincide with his exhibition at the Library, Pete Davis discusses his work and influences and how his ideas have developed with work made in Wales and abroad.

*Free admission by ticket*

**E**

TOCYNNAU / TICKETS  
01970 632 548  
digwyddiadau.llyfrgell.cymru  
events.library.wales

*Dydd Mercher 22 Mawrth*  
7.30pm

**David Lloyd – Llestr Bregus – Hywel Gwynfryn**

Y darlledwr a'r awdur Hywel Gwynfryn sy'n trafod ei gofiant i'r tenor enwog a swynodd genedl, David Lloyd. Bydd y noson yn cynnwys perfformiadau byw o rai o'i ganeuon.

*Mynediad drwy docyn £7.00 Bar ar gael*

*Wednesday 22 March*  
7.30pm

**David Lloyd – Llestr Bregus – Hywel Gwynfryn**

Broadcaster and author Hywel Gwynfryn discusses his biography of the renowned tenor who left a nation enraptured, David Lloyd. The evening will include a selection of his songs performed live.

*Admission by ticket £7.00 Bar available*

**C T**


#GwladGwlad  
#FindyourEpic



**A wyddoch chi fod archif David Lloyd yn y Llyfrgell ac mae ei recordiau'n rhan o Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru? / Did you know that the David Lloyd's archive is held at the Library, and that his records are in the National Screen and Sound Archive of Wales?**



Llanstephan MS 28



*Dydd Mercher 29 Mawrth*  
1.15pm

**Sgwrs Oriel: Chwedlau'r Saint – Dr David Parsons**

Un o guraduron yr arddangosfa, Dr David Parsons, sy'n ein tywys o gwmpas yr oriel a'r arddangosfa. Cynhelir y sgwrs yn Gymraeg am 1.15pm ac yn Saesneg am 2.30pm.

*Mynediad am ddim drwy docyn*

**C**

*Wednesday 29 March*  
2.30pm

**Gallery Talk: Stories of the Saints – Dr Martin Crampin**

One of the exhibition curators, Dr Martin Crampin, takes us on a tour around the gallery and exhibition. The talk will be given in Welsh at 1.15pm and in English at 2.30pm.

*Free admission by ticket*

**E**

#seintiau  
#saints



© Stad Edward Thomas Estate

*Dydd Mercher 5 Ebrill*  
1.15pm

**Edward Thomas and Wales – Dr Andrew Webb**

Cedwir dyddiaduron a llawysgrifau'r bardd a'r llenor Edward Thomas (1878–1917) yn y Llyfrgell. Mae'r cyflwyniad yn cydfynd â'n harddangosfa sy'n nodi canmlwyddiant ei farwolaeth yn ystod Brwydr Arras. Bydd y sgwrs hon yn archwilio Edward Thomas fel llenor Cymreig, gan ystyried ei dreftadaeth Gymreig, ei gysylltiad ag unigolion gan gynnwys O. M. Edwards, a'r ffyrdd y mae Cymru yn ysbrydoli ei ryddiaith a'i farddoniaeth.

*Mynediad am ddim drwy docyn*

#GwladGwlad  
#FindyourEpic

*Wednesday 5 April*  
1.15pm

**Edward Thomas and Wales – Dr Andrew Webb**

The diaries and manuscripts of the poet and prose writer Edward Thomas (1878–1917) are held at the Library. The presentation coincides with our exhibition to note the centenary of his death in action during the Battle of Arras. The talk will explore Edward Thomas as a Welsh writer, considering his Welsh heritage, his connection to figures including O. M. Edwards, and the ways in which Wales informs his prose and poetry.

*Free admission by ticket*

**E**



Nanteos

*Dydd Mercher 19 Ebrill*  
1.15pm

**The Shadow of Nanteos – Jane Blank**

Mae Nanteos, un o'r tai mwyaf nodedig yn Sir Aberteifi, wedi denu pobl o bedwar ban byd. Mae'r plasty'n frith o ddirgelion a chwedlau: ceir sôn am drysor coll, a'r cwpan enwog sy'n iacháu pobl. Ochr yn ochr â darnau o'i nofel ddiweddaraf, sydd wedi'i seilio yn y 1750au yn ystod y gwrthdaro mawr yn niwydiant plwm Sir Aberteifi, bydd yr awdur Jane Blank yn rhoi bywyd newydd i hanes y tŷ rhyfeddol hwn a'i drigolion.

*Mynediad am ddim drwy docyn*

#GwladGwlad  
#FindyourEpic

*Wednesday 19 April*  
1.15pm

**The Shadow of Nanteos – Jane Blank**

As one of the most important houses in Cardiganshire, Nanteos has attracted people from around the world. The mansion is rich in mystery and legend: from lost treasure to the famous healing cup. With extracts from her latest novel, set in the 1750s during the notorious Cardiganshire lead wars, author Jane Blank brings this fascinating house and its people to life.

*Free admission by ticket*

**E**




**Dewch i weld Cwpan Nanteos yn y Llyfrgell**  
**Come and see the Nanteos Cup at the Library**





Peniarth, MS 107C, f.34-5



Peniarth, MS 107C, f.34-5

*Dydd Sadwrn 22 Ebrill*  
2.00pm

**Digwyddiad Cyfeillion y Llyfrgell:**  
**Robert Vaughan a'i lyfrgell**  
**– Dr Maredudd ap Huw**

A hithau'n 350 mlynedd ers marw'r hynafiaethydd Robert Vaughan (1591/2–1667) o Hengwrt, bydd Curadur Llawysgrifau'r Llyfrgell yn cloriannu bywyd a gwaith un o gymwynaswyr pennaf y genedl. Trysorau llawysgrifol Vaughan yw cynsail casgliad llawysgrifau Peniarth, a gydnabyddir bellach gan UNESCO fel un o bwys rhyngwladol. Bydd cyfle yn ystod y dydd i weld arddangosfa fechan o lawysgrifau perthnasol, a hynny yng nghwmni'r Curadur. Digwyddiad a drefnir ar y cyd â Chymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd.

*Mynediad drwy docyn £4.00, am ddim i Gyfeillion y Llyfrgell*

*Saturday 22 April*  
2.00pm

**NLW Friends Event:**  
**Robert Vaughan a'i lyfrgell**  
**– Dr Maredudd ap Huw**

To mark 350 years since the death of antiquarian Robert Vaughan (1591/2–1667) of Hengwrt, the Library's Curator of Manuscripts evaluates the life and work of one of the nation's leading benefactors. Vaughan's priceless manuscripts form the basis of the Peniarth collection, now recognized by UNESCO as one of international importance. There will be an opportunity during the day to view a small exhibition of relevant manuscripts in the company of the Curator. Event organized in conjunction with the Merioneth Historical and Record Society.

*Admission by ticket £4.00, free to NLW Friends*



*Dydd Mercher 3 Mai*  
1.15pm

**Wales–China 250 years of history**  
**– Ena Neidergang**

Wrth weithio yn Wuhan, Canol Tsieina ddechrau'r 1990au, canfu Ena mai dyma'r ddinas lle treuliodd Griffith John, y cenhadwr o Abertawe, hanner can mlynedd o'i fywyd yn sefydlu ysbytai, eglwysi, colegau ac ysgolion. Ar ôl ymchwilio ymhellach daeth o hyd i gysylltiadau eraill rhwng Cymru a Tsieina, a fu'n sbardun iddi dreulio ugain mlynedd yn darganfod mwy am hanes y berthynas honno.

*Mynediad am ddim drwy docyn*

*Wednesday 3 May*  
1.15pm

**Wales–China 250 years of history**  
**– Ena Neidergang**

In the early 1990s while working in Wuhan, Central China, Ena discovered it was the city where the Swansea-born missionary, Griffith John, spent 50 years of his life establishing hospitals, churches, colleges and schools. Further research uncovered other Welsh and Chinese links, and so began a 20-year voyage of discovery.

*Free admission by ticket*



**A wyddoch chi fod Casgliad David Hawkes yn cynnwys dros 4,500 o lyfrau Tsieinaidd? / Did you know that our David Hawkes Collection contains over 4,500 Chinese books?**



*Dydd Gwener 12 Mai*  
9.45am–4.30pm

**Carto-Cymru – Symposiwm Mapiau Cymru 2017 – Mesur y Meysydd**

Diwrnod cyfan i drafod datblygiad mapio ystadau a'i werth i ddarlunio'r tirwedd hanesyddol. Cynhelir y digwyddiad mewn partneriaeth â Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

*Mynediad drwy docyn £20.00, sy'n cynnwys cinio buffe*

*Friday 12 May*  
9.45am–4.30pm

**Carto-Cymru – The Wales Map Symposium 2017 – Measuring the Meadows**

A day symposium to evaluate the development of estate mapping and its value in portraying the historical landscape. The event is held in partnership with the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales.

*Admission by ticket £20.00, which includes a buffet lunch*



#CartoCymru



*Dydd Sadwrn 13 Mai*  
10.00am–4.00pm

**Ffair Hanes Teulu a Hanes Lleol**

Diwrnod llawn o sgysiaiu, cyflwyniadau a stondinau, a chyfle i siarad gydag arbenigwyr yn y maes. Diwrnod delfrydol i bawb sy'n ymddiddori ym mhob agwedd o Hanes Teulu a Hanes Lleol.

*Mynediad am ddim*

*Saturday 13 May*  
10.00am–4.00pm

**Family and Local History Fair**

A full day of talks, presentations and stands, with an opportunity to talk to experts. A fascinating day for everyone interested in all aspects of Family and Local History.

*Free admission*



**A wyddoch chi fod y Llyfrgell yn cynnal cymorthfeydd Hanes Teulu?**  
Did you know that the Library holds Family History information session?



*Dydd Gwener 27 Ionawr*  
7.30pm

**Noson yng nghwmni Siân James**

Dewch i ddathlu Santes Dwynwen gyda noson o ganeuon gwerin a chaneuon gwreiddiol i gyfeiliant y delyn a'r piano yng nghwmni'r gantores amryddawn â thalentog Siân James.

*Mynediad drwy docyn £7.00 Bar ar gael*

#GwladGwlad  
#FindyourEpic

*Friday 27 January*  
7.30pm

**Noson yng nghwmni Siân James**

Celebrate Santes Dwynwen with an evening of folk and original songs to the accompaniment of the harp and piano, in the company of the talented and versatile Siân James.

*Admission by ticket £7.00 Bar available*



**Cyfle i brynu CD Siân o Siop y Llyfrgell / An opportunity to purchase Siân's CD from the Library's Shop**





*Dydd Iau 20 Ebrill*  
1.00–4.00pm

### Gweithdy Ffotograffiaeth

Gweithdy ymarferol dan arweiniad Scott Waby, Rheolwr Uned Digidol'r Llyfrgell. Cyflwyniad i dechnegau ffotograffiaeth a chyfle i ymarfer, gan gymryd ysbrydoliaeth o adeilad y Llyfrgell (tu fewn a thu allan). Mae croeso i blant ddefnyddio camera eu hunain – ond nid yn angenrheidiol, gan y bydd offer ar gael os oes angen. Nifer cyfyngedig o lefydd, felly anogir trefnu tocyn yn gynnar.

*Addas ar gyfer oeddrannau 9–12.*  
*Mynediad drwy docyn £6.00*


*Thursday 20 April*  
1.00–4.00pm

### Photography Workshop


A practical workshop, led by Scott Waby, Manager of the Library's Digitisation Section. An introduction to basic photography techniques and an opportunity to practice, taking inspiration from The National Library of Wales building (inside and out). Children are welcome to bring their own camera – but this is not essential, as Library equipment will be available if required. Limited number of spaces available, so early booking is advisable.

*Suitable for ages 9–12.*  
*Admission by ticket £6.00*


**E**

 30,000 O LAWYSGRFAU  
30,000 MANUSCRIPTS


6 MILIWN O LYFRAU A PHAPURAU NEWYDD  
6 MILLION BOOKS & NEWSPAPERS 


 1.5 MILIWN MAP  
1.5 MILLION MAPS


950,000 FFOTOGRAFF  
950,000 PHOTOGRAPHS 

 150,000 AWR O SAIN  
150,000 HOURS OF SOUND

7,000,000 TROEDFEDD O FFILM  
7,000,000 FEET OF FILM 

 60,000 O WEITHIAU CELF  
60,000 WORKS OF ART

1,900 METR CIWBIG O ARCHIFAU  
1,900 CUBIC METRES OF ARCHIVES 

 250,000 AWR O FIDEO  
250,000 HOURS OF VIDEO





## YMWELD

Teithiau tywys o amgylch y Llyfrgell bob dydd Llun am 11.00am a phob dydd Mercher am 2.15pm. I archebu tocyn cysylltwch â Siop y Llyfrgell ar 01970 632 548 neu archebwch ar y we drwy fynd i digwyddiadau.llyfrgell.cymru

Teithiau tywys ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Mae'r Llyfrgell hefyd yn cynnig teithiau tywys i grwpiau a chymdeithasau – am ragor o wybodaeth ffoniwch 01970 632 801 neu e-bostiwch gwas-ymwelwyr@llgc.org.uk

## TEITHIO

Mae maes parcio cyfleus ger y Llyfrgell neu theithiwch ar fws 03 sy'n dilyn taith gyloch rhwng tref Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Phrifysgol Aberystwyth.

## VISITING

Guided tours of the Library are available every Monday at 11.00am and Wednesday at 2.15pm. To book a ticket contact the Library Shop on 01970 632 548 or book on-line at events.library.wales

Tours are available in Welsh and English.

The Library also offers tours for groups and societies – for further information contact 01970 632 801 or e-mail visitor-services@llgc.org.uk

## TRAVELLING

Ample parking is available at the Library or alternatively, you can use the 03 bus which travels on a circular route between Aberystwyth town, the National Library of Wales and Aberystwyth University.

## DARGANFOD DISCOVER

Eisiau manteisio i'r eithaf ar gasgliadau a gwasanaethau'r Llyfrgell? Os felly, cynhelir sesiynau gwybodaeth ar y pynciau canlynol:

- Catalogau ar-lein ac adnoddau electronig
- Hanes teulu a hanes lleol
- Hanes adeilad
- Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru

Am ragor o wybodaeth neu i archebu eich lle yn un o'r sesiynau, ewch i [www.llgc.org.uk/cymorthfeydd](http://www.llgc.org.uk/cymorthfeydd) neu galwch 01970 632 933

Do you want to know how to get the best out of the Library's collections and services? If so, information sessions are held on the following topics:

- On-line catalogues and e-resources
- Family and local history
- Property history
- National Screen and Sound Archive of Wales

For more information or to book your place, please visit [www.llgc.org.uk/surgeries](http://www.llgc.org.uk/surgeries) or telephone 01970 632 933

## CEFNOGI SUPPORT

**CYFEILLION Y LLYFRGELL**  
Ymunwch â Chyfeillion Llyfrgell Genedlaethol Cymru a chewch ostyngiad o 10% ar rai o'r eitemau yn Siop y Llyfrgell: [www.llgc.org.uk/cyfeillion](http://www.llgc.org.uk/cyfeillion)

**FRIENDS OF THE LIBRARY**  
Join the NLW Friends and enjoy a 10% discount on some of the items in the Library shop: [www.llgc.org.uk/friends](http://www.llgc.org.uk/friends)

## PENODAU

Mae cefnogaeth yn ei hamryfal ffyrdd yn allweddol i ffyniant Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Cyfrannwch rodd.  
[cefnogwch-ni@llgc.org.uk](mailto:cefnogwch-ni@llgc.org.uk)

## CHAPTERS

Support in its many forms is vital to the prosperity of the National Library of Wales.

Give a gift.  
[support-us@llgc.org.uk](mailto:support-us@llgc.org.uk)

## RHODDI'N RHEOLAIDD REGULAR GIVING

Sefydlwyd y Llyfrgell gan roddion pobl Cymru. Wrth ddewis rhoi'n rheolaidd fe fyddwch chi'n parhau'r traddodiad hwnnw: [www.llgc.org.uk/cy/am-llgc/gweithio-gyda-ni/cefnogwch-ni/rhoi-rheolaidd/](http://www.llgc.org.uk/cy/am-llgc/gweithio-gyda-ni/cefnogwch-ni/rhoi-rheolaidd/)

Am wybodaeth bellach cysylltwch â ni: [cefnogwch-ni@llgc.org.uk](mailto:cefnogwch-ni@llgc.org.uk)

Donations given by the people of Wales were used to establish the Library. By giving a regular gift you can continue this tradition: [www.llgc.org.uk/en/about-nlw/work-with-us/support-us/regular-giving/](http://www.llgc.org.uk/en/about-nlw/work-with-us/support-us/regular-giving/)

For further information please contact us: [support-us@llgc.org.uk](mailto:support-us@llgc.org.uk)

## GWASANAETH LLETYGARWCH

Os ydych yn chwilio am leoliad godidog ac unigryw ar gyfer eich seremoni briodas, cynhadledd neu ddigwyddiad, mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cynnig nifer o ystafelloedd, gwasanaeth arlwydo a gwasanaeth technegol i hyd at 100 o bobl. Cysylltwch â'r Swyddog Lletygarwch ar [gwas@llgc.org.uk](mailto:gwas@llgc.org.uk) neu 01970 632 801 i drafod eich anghenion ymhellach.

## HOSPITALITY FACILITIES

If you're looking for a magnificent and unique venue for your wedding ceremony, conference or event, The National Library of Wales has a number of rooms available for hire and can provide catering and technical support for up to 100 people. Contact our Hospitality Officer on [gwas@llgc.org.uk](mailto:gwas@llgc.org.uk) or 01970 632 801 to discuss your requirements.



## GWYBODAETH YMWELWYR VISITOR INFORMATION

Dylai pobl sy'n ymweld â digwyddiadau ac arddangosfeydd a gynhelir yn y Llyfrgell fod yn ymwybodol y gallai ffotograffwyr y Llyfrgell fod yno'n tynnu lluniau.

Ɖfallai y bydd y Llyfrgell yn dymuno defnyddio'r lluniau hyn mewn deunydd hyrwyddo a marchnata. Os oes gennych unrhyw wrthwynebiad i'r fath ddefnydd o lun y gallech fod ynddo, rhowch wybod i aelod o staff y Llyfrgell.

Mae'r Llyfrgell yn cadw'r hawl i newid amserau a dyddiadau unrhyw ddigwyddiad neu arddangosfa. Mae'r manylion a geir yn y llyfryn hwn yn gywir ar adeg cyhoeddi.

Visitors to events and exhibitions held at the Library are reminded that the Library's photographers may take photographs. The Library may wish to use these images in promotional and marketing literature. If you have any objection to such use being made of a photograph that may include you, please inform a member of the Library staff.

The Library retains the right to change the scheduling of events or exhibitions. The details listed are correct at the time of publication.

## BARN Y BOBL? WHAT WOULD YOU DO?

Beth, neu bwy, hoffech chi ei weld yn y Llyfrgell? Os oes gennych unrhyw awgrym am siaradwr, cerddor neu ddigwyddiad yr hoffech ei gynnig, cysylltwch â ni. Byddwn yn falch iawn o gael clywed.

What or who would you like to see at the Library? If you have a suggestion for a speaker, musician or event, please get in touch. We'd like to hear from you.



Cyfle i ennill taleb gwerth £20.00 o Siop y Llyfrgell. Danfonwch eich syniadau i'r Uned Hyrwyddo, [post@llgc.org.uk](mailto:post@llgc.org.uk)

For an opportunity to win a £20.00 voucher from the Library's Shop, please submit your ideas to the Promotion Unit, [post@llgc.org.uk](mailto:post@llgc.org.uk)



TOCYNNAU / TICKETS  
01970 632 548  
[digwyddiadau.llyfrgell.cymru](http://digwyddiadau.llyfrgell.cymru)  
[events.library.wales](http://events.library.wales)

## CADWCH MEWN CYSYLLTIAD! KEEP IN TOUCH!

Ymunwch â'n rhestr bostio rhad ac am ddim i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau a gweithgareddau yn y Llyfrgell. Llenwch y ffurflen a'i dychwelyd i'r cyfeiriad isod.

To join our free mailing list and keep up to date with Library events and activities, please complete and return this form.

Enw / Name .....

Cyfeiriad / Address .....

Ffôn / Phone .....

E-bost / Email .....

Cefais y llyfryn hwn yn (nodwch ble, er enghraifft, y Llyfrgell Genedlaethol, Canolfan Groeso Aberystwyth, ac yn y blaen) / I obtained this brochure from (please specify e.g. at The National Library, Aberystwyth Tourist Information Centre, etc)

Dychwelyd y ffurflen wedi'i llanw at:

Please return the completed slip to the:

Uned Hyrwyddo  
Llyfrgell Genedlaethol Cymru  
Aberystwyth SY23 3BU

The Promotions Unit  
The National Library of Wales  
Aberystwyth SY23 3BU

Neu drwy e-bost at  
[post@llgc.org.uk](mailto:post@llgc.org.uk)

Or e-mail  
[post@llgc.org.uk](mailto:post@llgc.org.uk)

*Rwy'n deall y caiff yr wybodaeth uchod ei dal yn y Llyfrgell yn unig, ac ni fydd unrhyw gwmni na sefydliad arall yn ei defnyddio.*

*I understand that this information will only be held at the Library, and will not be used by any other company or institution.*





**LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU**  
**THE NATIONAL LIBRARY OF WALES**

Aberystwyth  
Ceredigion  
SY23 3BU

t: 01970 632 800  
post@llgc.org.uk

**Oriau Agor Cyffredinol /**  
**General Opening Hours**

Dydd Llun – Dydd Gwener/  
Monday – Friday  
9:30am – 6:00pm  
Dydd Sadwrn/Saturday  
9:30am – 5:00pm

[www.llgc.org.uk](http://www.llgc.org.uk)